**Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Etholiadau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023.

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

12 Medi 2023

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

Mae Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023 yn diwygio Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/1459 (Cy. 374)) ("Rheolau 2021") i gynnwys darpariaeth yn Rheolau 2021 ar gyfer cynnal etholiadau i brif gynghorau gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Drwy gydol y Memorandwm Esboniadol hwn, defnyddir rhai termau cyffredinol er mwyn bod yn gryno:

- Prif ardal – yn cyfeirio at sir a / neu fwrdeistref sirol
- Prif gyngor – yn cyfeirio at gyngor sir a / neu gyngor bwrdeistref sirol
- Cyngor cymuned – yn cyfeirio at gyngor cymuned a / neu gyngor tref
- Deddf 1983 – Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- Deddf 2021 – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheolau o dan adran 36A(1) i (5) o Ddeddf 1983.

Mae adran 36A(1) i (4) o Ddeddf 1983 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheolau ar gyfer cynnal etholiadau i brif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru. Mae adran 36A(5) o Ddeddf 1983 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau atodol, deilliadol, canlyniadol, trosiannol, darfodol neu ddarpariaethau arbed at ddibenion, o ganlyniad i neu ar gyfer rhoi effaith lawn i reolau a wneir o dan adran 36A(1).

Mewnosodwyd adran 36A o Ddeddf 1983 gan adran 13 o Ddeddf 2021. Ar 6 Mai 2022, daeth adrannau 5 i 12 o Ddeddf 2021 i rym; mae'r adrannau hyn yn cyflwyno, ar gyfer prif gynghorau yn unig, yr opsiwn o gynnal eu hetholiadau gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn hytrach na'r system mwyafrif syml (a adwaenir hefyd fel "Y Cyntaf i'r Felin"). Y system mwyafrif syml oedd yr unig system a oedd ar gael i brif gynghorau tan i adrannau 5 i 12 o Ddeddf 2021 ddod i rym.

Mae'r gweithdrefnau y mae rhaid i brif gyngor eu dilyn er mwyn newid ei system bleidleisio wedi'u nodi yn adrannau 8 a 9 o Ddeddf 2021. Yr etholiadau cyntaf

pan fyddai prif gyngor yn gallu defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy fyddai'r etholiadau llywodraeth leol arferol sydd wedi'u trefnu ar hyn o bryd ar gyfer mis Mai 2027.

Nid yw adrannau 5 i 12 o Ddeddf 2021 yn gymwys i gynghorau cymuned; nid yw'r opsiwn o newid i system pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gael i gynghorau cymuned y mae rhaid iddynt barhau i ddefnyddio'r system mwyafrif syml ar gyfer eu hetholiadau.

### *Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021*

Ar 15 Rhagfyr 2021, gwnaed Rheolau 2021 gan Weinidogion Cymru. Mae Rheolau 2021 yn darparu ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gynghorau. Mae Rheolau 2021 yn gymwys i etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2022 neu wedi hynny.

Mae Rheolau 2021 yn nodi sut y mae rhaid cynnal etholiadau i brif gynghorau sy'n defnyddio'r system mwyafrif syml. Fel y'u gwnaed yn wreiddiol, nid ydynt yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal etholiadau gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Mae dyfodiad i rym yr adrannau hynny o Ddeddf 2021 sy'n caniatáu ar gyfer defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn golygu bod angen diwygio Rheolau 2021 i gynnwys rheolau ar gyfer cynnal etholiadau sy'n defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy (ochr yn ochr â'r rheolau sy'n darparu ar gyfer etholiadau sy'n defnyddio'r system mwyafrif syml).

Mae Rheolau 2021 yn nodi'r rheolau ynghylch:

- yr amserlen ar gyfer rhai gweithgareddau sy'n digwydd cyn ac ar y diwrnod pleidleisio,
- rhoi hysbysiad am etholiad,
- enwebu ymgeiswyr,
- ffurf papurau pleidleisio,
- cynnal y bleidlais, gan gynnwys swyddogaethau swyddogion canlyniadau a staff yr orsaf bleidleisio,
- penodi (gan ymgeiswyr) asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif,
- cyfrif pleidleisiau a datgan canlyniadau,
- cadw a gwaredu yn ddiweddarach, ar ôl yr etholiad, rai dogfennau etholiad.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithdrefnau, y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â chynnal etholiad i brif gyngor yr un fath, p'un a yw'n cael ei gynnal gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy neu'r system mwyafrif syml. Mae rhai ffurfiau a ddefnyddir mewn etholiadau yn cael eu rhagnodi ac

felly mae angen darparu fersiynau sy’n ymwneud â phapurau pleidleisio, datganiadau pleidleisio post, cardiau pleidleisio a chanllawiau i bleidleiswyr sy’n cynnwys cyfarwyddiadau priodol ar gyfer etholiadau sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Heblaw am y ffurfiau hyn, yr unig wahaniaethau gweithdrefnol rhwng etholiad sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy ac un sy’n defnyddio’r system mwyafrif syml yw’r rhai hynny sy’n ymwneud â chyfrif y pleidleisiau a datgan y canlyniadau.

Yn unol â hynny, nid yw set hollol wahanol o reolau ar gyfer etholiad sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn briodol. Mae’r Rheolau hyn, Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023, yn diwygio Rheolau 2021 i ddarparu ar gyfer y gwahanol fersiynau newydd o ffurfiau rhagnodedig ac i fewnosod y Rhan 4A newydd sy’n nodi’r rheolau ar gyfer cynnal y cyfrif mewn etholiad sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae rheol 1 yn nodi enw’r Rheolau a’u dyddiad cychwyn, sef 9 Hydref 2023.

Mae rheol 2 yn diwygio rheol 3 (dehongli) o Reolau 2021 fel bod y termau “system mwyafrif syml” a “system pleidlais sengl drosglwyddadwy” yn cael eu hychwanegu at y rhestr ym mharagraff (3) o’r rheol honno. Effaith y diwygiad yw fod i’r termau hynny yr ystyr a nodir yn adran 6 o Ddeddf 2021.

Mae rheol 3 yn gwneud diwygiadau amrywiol i Ran 3 o Atodlen 1 i Reolau 2021 (cynnal y bleidlais), gan gynnwys:

- nifer o ddiwygiadau canlyniadol o ganlyniad i fewnosod y Rhan 4A newydd o Reolau 2021 a
- darparu ar gyfer defnyddio fersiynau gwahanol o rai ffurfiau rhagnodedig mewn etholiadau sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Mae’r ffurfiau a gyflwynir yn Rhan 3 yn ymwneud â ffurf y papurau pleidleisio, y datganiadau pleidleisio post, y cardiau pleidleisio a’r canllawiau i bleidleiswyr. Mae fersiynau gwahanol yn ofynnol ar gyfer etholiadau sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy fel bod pleidleiswyr, yn hytrach na chael eu cyfarwyddo i roi croes, yn cael gwybodaeth ynghylch sut i farcio eu dewis cyntaf, eu hail ddewis a’u trydydd dewis etc.

Mae rheol 4 yn mewnosod y Rhan 4A newydd yn Rheolau 2021, sy’n ymdrin â chyfrif pleidleisiau mewn etholiadau sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Bydd y Rhan 4 bresennol yn parhau i fod yn gymwys mewn etholiadau sy’n defnyddio’r system mwyafrif syml ac mae wedi ei hailenwi i adlewyrchu ei chwmpas.

Mae Pennod 1 o’r Rhan 4A newydd yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol.

Mae rheol 60A yn nodi dyletswyddau'r swyddog canlyniadau i wneud trefniadau ar gyfer cyfrif y pleidleisiau. Rhaid i'r swyddog canlyniadau wneud trefniadau i'r pleidleisiau gael eu cyfrif cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y bleidlais a rhaid iddo hysbysu'r asiantau cyfrif o'r amser a'r lle y bydd y cyfrif yn dechrau.

Mae'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer presenoldeb wrth i'r pleidleisiau gael eu cyfrif (rheol 60B), ar gyfer cyfrif y papurau pleidleisio yn y lle cyntaf a'u dilysu etc. (rheol 60C) ac ar gyfer dyletswyddau cyffredinol y swyddogion canlyniadau wrth gyfrif y pleidleisiau (rheol 60D) yn debyg i'r ddarpariaeth a wneir gan y Rhan 4 bresennol ar gyfer etholiadau sy'n defnyddio'r system mwyafrif syml.

Mae'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer gwrthod papurau pleidleisio yn sylweddol wahanol (rheol 60E). Yn benodol, mae'r seiliau ar gyfer eu gwrthod yn wahanol mewn ffyrdd penodol er mwyn ystyried y sefyllfa mewn etholiadau sy'n defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy pan fo rhaid i bleidleiswyr nodi dewis cyntaf a phan gânt nodi ail ddewis a dewisiadau pellach. Gwahoddir pleidleiswyr i nodi eu dewisiadau gan ddefnyddio ffigurau, ond ni ddylid trin papurau pleidleisio fel pe baent yn ddi-rym os ydynt yn defnyddio geiriau neu farc arall yn lle ffigur ac os yw eu bwriadau'n glir.

Mae Pennod 2 o'r Rhan 4A newydd yn nodi'r rheolau a ddefnyddir i bennu'r canlyniad mewn etholiadau sy'n defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Mae'r rheolau hyn yn seiliedig ar system a ddisgrifir weithiau mewn llenyddiaeth ynghylch systemau etholiadol fel "y dull Gregory clasurol" neu "y dull Gregory syml". Mae'r prif agweddau ar y rheolau fel a ganlyn:

- Cyfrifir y pleidleisiau dewis cyntaf ar bapurau pleidleisio dilys (rheol 60G).
- Cyfrifir y "cwota". Dyma nifer y pleidleisiau y mae eu hangen i sicrhau y dychwelir ymgeisydd fel cynghorydd. Mae rheol 60H yn nodi'r camau ar gyfer cyfrif y cwota.

Mae rheol 60I yn nodi bod ymgeisydd i'w drin fel pe bai wedi ei ethol os yw nifer y pleidleisiau dros yr ymgeisydd, ar unrhyw gam o'r cyfrif, yn cyfateb i'r cwota neu uwchlaw'r cwota.

*Trosglwyddiadau*

O dan y system pleidlais sengl drosglwyddadwy, trosglwyddir pleidleisiau o dan yr amgylchiadau pan fo nifer y pleidleisiau dros ymgeisydd uwchlaw'r cwota (hynny yw, pan drinnir yr ymgeisydd felly fel pe bai wedi ei ethol a bod ganddo bleidleisiau dros ben) ac mae seddi i'w llenwi o hyd.

- Pan fo'r pleidleisiau dewis cyntaf ar gyfer ymgeisydd uwchlaw'r cwota, mae rheol 60J yn nodi'r hyn sy'n digwydd. Edrychir ar bapurau pleidleisio'r ymgeisydd llwyddiannus i weld a yw'r pleidleisiwr wedi mynegi "dewis nesaf sydd ar gael". Diffinnir hyn yn rheol 60J(2), ac yn fras mae'n golygu dewis nesaf (mewn trefn olynol) o ran ymgeisydd sy'n dal yn y ras (hynny yw, nad yw wedi ei drin fel pe bai wedi ei ethol nac wedi ei eithrio). Cyfeirir at bapurau pleidleisio sy'n mynegi dewis nesaf

sydd ar gael yn y rheolau fel “papurau trosglwyddadwy” a throsglwyddir pob un i’r ymgeisydd y rhoddwyd y dewis o’i ran. Mae i’r bleidlais ar bob papur pleidleisio a drosglwyddir werth a gyfrifir yn unol â rheol 60J(5), drwy gymryd pleidleisiau dros ben yr ymgeisydd a’u rhannu â chyfanswm nifer y papurau pleidleisio a drosglwyddir.

- Mewn achosion pan fo gan ymgeisydd bleidleisiau dros ben, er enghraifft, pan fo gan ymgeisydd bleidleisiau dros ben ar ôl trosglwyddo’r pleidleisiau dewis cyntaf o dan reol 60J, mae rheol 60K yn nodi’r hyn sy’n digwydd. Os digwydd hyn, nid yw’r swyddog canlyniadau ond yn edrych ar y papurau pleidleisio a drosglwyddwyd ddiwethaf i’r ymgeisydd llwyddiannus (yn yr enghraifft, y rheini a drosglwyddwyd o dan reol 60J). Edrychir ar y papurau pleidleisio hyn i weld a yw’r pleidleisiwr wedi mynegi dewis nesaf sydd ar gael. Trosglwyddir pob papur pleidleisio sy’n mynegi dewis nesaf sydd ar gael i’r ymgeisydd y rhoddwyd y dewis o’i ran. Mae i’r bleidlais ar bob papur pleidleisio a drosglwyddir werth a gyfrifir yn unol â rheol 60K(5). Mae hyn eto yn golygu rhannu pleidleisiau dros ben yr ymgeisydd â chyfanswm nifer y papurau pleidleisio a drosglwyddir ond ceir cam ychwanegol y bwriedir iddo sicrhau nad yw’r gwerth yn fwy na gwerth y bleidlais ar y papur pleidleisio pan gafwyd hi gan yr ymgeisydd y mae’r bleidlais yn awr yn cael ei throsglwyddo oddi wrtho (gweler cam 3 yn rheol 60K(5)).
- Mae rheolau 60L, 60M a 60N yn ymdrin â materion ategol yn ymwneud â throsglwyddiadau. Yn benodol, mae rheol 60L yn ymdrin ag achosion pan na fo angen trosglwyddo, rheol 60M yn ymdrin â threfn trosglwyddiadau pan fo gan ddau ymgeisydd neu ragor yr un nifer o bleidleisiau dros ben a rheol 60N yn ymdrin â’r cofnodion y mae’n ofynnol i’r swyddog canlyniadau eu gwneud a chydag achosion pan na fo angen trosglwyddo.

*Eithrio*

Os oes seddi gwag i’w llenwi o hyd ar ôl trosglwyddo’r holl bleidleisiau dros ben, mae’r rheolau’n darparu ar gyfer eithrio’r ymgeisydd sydd â’r nifer lleiaf o bleidleisiau (rheol 60O). Yna caiff pleidleisiau’r ymgeisydd a eithriwyd eu hailddosbarthu. Mae hyn yn digwydd fesul cam.

- Y cam cyntaf yw trosglwyddo pleidleisiau dewis cyntaf yr ymgeisydd a eithriwyd o dan reol 60O. Mae’r swyddog canlyniadau’n edrych ar y papurau pleidleisio y rhoddwyd y pleidleisiau hynny arnynt i weld a yw’r pleidleisiwr wedi mynegi dewis nesaf sydd ar gael. Trosglwyddir pob papur pleidleisio sy’n mynegi dewis nesaf sydd ar gael i’r ymgeisydd y rhoddwyd y dewis o’i ran, a’r gwerth trosglwyddo fydd 1.

Os oes seddi gwag o hyd ar ôl gwneud hyn, mae’r swyddog canlyniadau’n didoli papurau pleidleisio eraill yr ymgeisydd a eithriwyd yn grwpiau yn unol â gwerth trosglwyddo’r pleidleisiau hynny pan gafodd yr ymgeisydd a eithriwyd hwy (rheol 60P). Gan ddechrau â’r grŵp uchaf ei werth, mae’r swyddog

canlyniadau'n edrych ar y papurau pleidleisio i weld a yw'r pleidleisiwr wedi mynegi dewis nesaf sydd ar gael. Trosglwyddir pob papur pleidleisio sy'n mynegi dewis nesaf sydd ar gael i'r ymgeisydd y rhoddwyd y dewis o'i ran, yn unol â gwerth y bleidlais ar y papur pan gafwyd hi gan yr ymgeisydd a eithriwyd.

- Mae rheol 60Q yn ymdrin â'r drefn eithrio pan fo gan fwy nag un ymgeisydd y nifer lleiaf o bleidleisiau. Rhaid i'r swyddog canlyniadau eithrio p'un bynnag o'r ymgeiswyr a oedd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau ar y cam cynharaf o'r cyfrif pan oedd ganddynt nifer anghyfartal o bleidleisiau.
- Oes oedd nifer y pleidleisiau a oedd wedi eu credydu i'r ymgeiswyr yn gyfartal ar bob cam o'r cyfrif, rhaid i'r swyddog canlyniadau benderfynu rhwng yr ymgeiswyr drwy fwrw coelbren ac eithrio'r ymgeisydd yr aeth y coelbren o'i blaid.
- Mae rheol 60R yn ymdrin â materion ategol sy'n ymwneud ag eithrio, megis y cofnodion y mae'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau eu gwneud. Mae hefyd yn darparu nad oes modd trosglwyddo papur pleidleisio os yw'r swyddog canlyniadau o'r farn; bod y papur pleidleisio'n dangos bod y dewis nesaf yn nhrefn y dewisiadau wedi ei roi o ran dau ymgeisydd neu ragor (p'un a ydynt yn ymgeiswyr olynol ai peidio); nad yw'r dewis nesaf ar y papur pleidleisio (p'un a yw dros ymgeisydd sy'n parhau ai peidio) yn dilyn yn olynol ar ôl y dewis sy'n dod yn union o'i flaen; neu os nad yw'n glir i'r swyddog canlyniadau am unrhyw reswm arall pa ymgeisydd sydd nesaf yn nhrefn y dewisiadau.

*Swyddi gwag olaf*

Mae rheol 60S yn nodi rheolau arbennig sy'n gymwys i lenwi swyddi gwag olaf. Bwriedir i'r rheolau hyn sicrhau nad yw'n ofynnol i'r swyddog canlyniadau barhau i gyfrif pan na fyddai diben gwneud hynny. Er enghraifft, mae'r rheol yn darparu, pan fo nifer yr ymgeiswyr sy'n dal yn y ras yn cyfateb i nifer y swyddi gwag sy'n dal heb eu llenwi, y trinnir yr ymgeiswyr hynny fel pe baent wedi eu hethol.

*Materion atodol*

Mae rheolau 60T i 60W yn ymdrin â materion atodol. Mae rheol 60T yn galluogi ymgeisydd neu asiant etholiadol i ofyn, ar ddiwedd pob cam o'r cyfrif, i'r cam hwnnw gael ei ailgyfrif. Rhaid i'r swyddog canlyniadau gydymffurfio â'r cais oni bai, ym marn y swyddog canlyniadau, ei fod yn afresymol. Mae rheol 60U yn nodi rheolau ynghylch y drefn y trinnir ymgeiswyr fel pe baent wedi eu hethol ynddi (a'r rheol gyffredinol yw mai dyma'r drefn y trosglwyddwyd eu priod bleidleisiau dros ben ynddi). Mae rheol 60V yn darparu y bydd penderfyniadau'r swyddog canlyniadau yn derfynol (yn ddarostyngedig i'w hadolygu ar ddeiseb etholiad). Mae rheol 60W yn ymdrin â datgan y canlyniad, rhoi hysbysiad i swyddog priodol y cyngor y cynhaliwyd yr etholiad ar ei gyfer a chyhoeddi manylion penodol am y canlyniad.

Mae rheol 5 – yn ymdrin â diwygiadau i Ran 5 o Atodlen 1 i Reolau 2021. Effaith y diwygiadau hyn yw bod y datganiadau o’r papurau pleidleisio a wrthodwyd a baratowyd o dan reol 60E(6) a’r datganiadau ynglŷn â chanlyniad dilysiad y cyfriflenni papurau pleidleisio a baratowyd o dan reol 60C(5) wedi eu cynnwys yn y rhestr o ddogfennau y mae rhaid eu danfon i’r swyddog cofrestru mewn etholiadau lle ceir gornest.

Mae rheol 6 yn mewnosod Atodlenni 1 i 4 i mewn i’r Rheolau hyn, sy’n cynnwys Atodiadau 2A, 4A, 5A a 6A a fewnosodir yn yr Atodiadau i Atodlen 1 i Reolau 2021. Mae pob Atodiad newydd yn darparu ffurfiau rhagnodedig newydd sy’n ymwneud â phapurau pleidleisio, datganiadau pleidleisio post, cardiau pleidleisio a chanllawiau i bleidleiswyr (yn y drefn honno). Mae’r ffurfiau newydd yn cynnwys cyfarwyddiadau priodol ar gyfer etholiadau sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Mae rheolau 7 i 10 yn gwneud diwygiadau i Atodlen 2 i Reolau 2021 (sy’n ymdrin â’r sefyllfa pan gyfunir y bleidlais mewn etholiad i brif gyngor â’r bleidlais mewn etholiad perthnasol). Mae’r ddarpariaeth a wneir i Atodlen 2 gan y Rheolau hyn yn debyg i’r ddarpariaeth a wneir gan reolau 3 i 6 mewn cysylltiad ag Atodlen 1 o ran sefyllfaoedd pan na gyfunir y bleidlais.

Mae rheol 11 yn gwneud diwygiad technegol i reol 54(3) o Reolau 2021.

Atodlenni

Mae Atodlen 1 yn mewnosod yr Atodiad 2A newydd yn Atodlen 1 i Reolau 2021 i ddarparu ffurf y papur pleidleisio i’w defnyddio mewn etholiad sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Mae Atodlen 2 yn mewnosod yr Atodiad 4A newydd yn Atodlen 1 i Reolau 2021 i ddarparu ffurf y datganiad pleidleisio post i’w defnyddio mewn etholiad sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Mae Atodlen 3 yn mewnosod yr Atodiad 5A newydd yn Atodlen 1 i Reolau 2021 i ddarparu ffurfiau’r sawl cerdyn pleidleisio swyddogol i’w defnyddio mewn etholiad sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Mae Atodlen 4 yn mewnosod yr Atodiad 6A newydd yn Atodlen 1 i Reolau 2021 i ddarparu ffurf y canllawiau i bleidleiswyr i’w defnyddio mewn etholiad sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Mae Atodlenni 5 i 8 yn mewnosod Atodiadau 2A, 4A, 5A a 6A yn Atodlen 2 i Reolau 2021 i ddarparu ffurfiau fel y nodir uchod i’w defnyddio mewn etholiad sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy pan gaiff ei gyfuno ag etholiad arall.

## 5. Ymgynghori

Mae adran 36A(7) o Ddeddf 1983 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag y maent o'r farn eu bod yn briodol wrth wneud y Rheolau hyn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad wyth wythnos, a ddechreuodd ar 10 Chwefror, ynghylch y Rheolau hyn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o arbenigwyr etholiadol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys swyddogion canlyniadau, y Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r Rheolau Diwygio drafft ar 14 Gorffennaf 2023 ochr yn ochr â datganiad Gweinidogol yn cadarnhau y byddai rhai diwygiadau i'r Rheolau drafft yn cael eu gwneud i sicrhau eglurder a hygyrchedd, yn enwedig i bleidleiswyr.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheolau hyn.

Mae'r Rheolau hyn yn diwygio Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 i wneud darpariaeth ychwanegol fel y ceir cynnal etholiad i brif gyngor gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Mae'r ddarpariaeth newydd yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cynnal etholiad i brif gyngor gan ddefnyddio'r system mwyafrif syml. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi prif gyngor i ddewis rhwng y system mwyafrif syml a'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer cynnal ei etholiadau. Mater i'r prif gyngor yw penderfynu a ddylid newid ei system bleidleisio. Yn unol â hynny, nid yw'r Rheolau hyn yn gosod unrhyw gostau newydd ar brif gynghorau gan ei fod yn ôl disgresiwn y cyngor yn llwyr p'un ai i newid ai peidio.

P'un a yw prif gyngor yn penderfynu cynnal ei etholiadau gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy neu'r system mwyafrif syml, bydd y rhan fwyaf o'r elfennau cost yn aros yr un fath. Bydd cost gwaith gweinyddol, cynhyrchu papurau pleidleisio a chardiau pleidleisio, llogi a staffio gorsafoedd pleidleisio a chadw dogfennau etholiad am flwyddyn ar ôl yr etholiad yr un fath, p'un a yw'r etholiad yn cael ei gynnal gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy neu'r system mwyafrif syml.

Mae'r gwahaniaeth cost, ar gyfer un prif gyngor, rhwng etholiad a gynhelir o dan y system pleidlais sengl drosglwyddadwy a'r un etholiad wedi'i gynnal o dan y system mwyafrif syml yn deillio o'r broses gyfrif. Byddai cyfrif o dan y system pleidlais sengl drosglwyddadwy, a wneir â llaw, fel sy'n ofynnol o dan y Rheolau hyn, yn debygol o gymryd mwy o amser na'r cyfrif cyfatebol o dan y system mwyafrif syml. Y rheswm am hyn yw'r potensial ar gyfer sawl rownd ychwanegol o gyfrif er mwyn cyfrif pleidleisiau dros ben gan ymgeiswyr yr ystyrir eu bod wedi eu hethol a phleidleisiau a drosglwyddwyd gan ymgeiswyr a eithriwyd.

Mewn etholiad sy’n defnyddio’r system mwyafrif syml, rhaid i gyngor dalu costau penodol, sef llogi’r ganolfan gyfrif a ffioedd ar gyfer y cyfrifwyr. O dan y system mwyafrif syml, byddai’r costau hyn yn cael eu cyfyngu i un diwrnod. Mewn etholiad arferol sy’n defnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy, byddem yn disgwyl i’r cyfrif barhau i mewn i ail ddiwrnod, gyda chynnydd canlyniadol mewn costau. Rydym yn amcangyfrif ar gyfer prif gyngor canolig ei faint, gyda thua 100,000 o etholwyr, y byddai’r gwahaniaeth rhwng cyfrif mewn etholiad a gynhelir o dan y system pleidlais sengl drosglwyddadwy ac un a gynhelir o dan y system mwyafrif syml yn £6,000, sef llogi’r ganolfan gyfrif a ffioedd ar gyfer y cyfrifwyr i mewn i ail ddiwrnod. Ni fyddai angen unrhyw offer arbenigol ar gyfer cyfrif pleidleisiau sengl trosglwyddadwy â llaw.

## 7. Costau a manteision

Ni wnaed unrhyw ddadansoddiad o’r costau a’r manteision ar gyfer y Rheolau hyn, sy’n angenrheidiol i alluogi cynghorau i ymgymryd â’u hawl ddeddfwriaethol i etholiad gan ddefnyddio’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy os byddant yn penderfynu gwneud hynny.

## 8. Asesu’r gystadleuaeth

Ni fydd y darpariaethau yn y Rheolau yn effeithio ar fusnesau, elusennau na’r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy’n peri materion o ran y gystadleuaeth. Ni chymhwyswyd y prawf hidlo’r gystadleuaeth. Ni ddisgwylir i’r darpariaethau yn y Rheolau gael unrhyw effaith ar y gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd na rhai presennol. Disgwylir mai ar gyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu’r costau hyn, y bydd y mwyafrif o’r costau sy’n gysylltiedig â’r ddeddfwriaeth yn disgyn. Ni ddisgwylir i’r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.